# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Llun, 18 Gorffennaf 2013 am 9.30 a.m.

## PRESENNOL

Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Ann Davies, Meirick Davies, Pat Jones, Margaret McCarroll, Merfyn Parry, Bill Tasker a/ac Huw Williams.

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Hugh Evans, Bobby Feeley ac Eryl Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol:Moderneiddio a Lles (SE); Pennaeth Gwasanaethau Busnes ac Oedolion (PG); Rheolwr Gwasanaeth:Busnes a Gofalwyr (AH-J); Rheolwr Gwasanaeth: Gwasanaethau Arbenigol (AP); Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau (DH); Swyddog Perfformiad a Chynllunio (EH); Rheolwr Lleol, Taith i Waith (HE); Cydlynydd Archwilio (RE) a Gweinyddydd Pwyllgor.

Irfon Williams – Rheolwr Gwasanaeth, BIPBC, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) ac Anableddau, Gogledd Cymru
Sue Wynne – Rheolwr Gwasanaeth, BIPBC, CAMHS

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Bill Cowie, Alice Jones a Dewi Owens.

Eglurodd y Cadeirydd y cytunwyd y dylid sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen mewn perthynas â rheoli heintiau yng nghyfarfod blaenorol Archwilio Partneriaethau ar 10 Mehefin 2013. Fodd bynnag, cadarnhawyd y byddai Ymgynghorydd yn mynychu cyfarfod Pwyllgor Archwilio Partneriaethau fel rhan o ddirprwyaeth BIPBC. Ar ôl ystyried, nid oedd angen sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen.

Datganodd y Cadeirydd er mwyn gallu cael trafodaeth ddofn yng nghyfarfodydd Pwyllgor Archwilio Partneriaethau, byddai'n rhaid lleihau'r llwyth gwaith yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Anfonodd y Pwyllgor eu dymuniadau gorau at Mr Richard Jones, Cyn-gynghorydd Sir a gŵr y Cynghorydd Alice Jones, a gofyn am gerdyn i'w anfon ar ran y Pwyllgor i Mr Jones. Cytunodd y Cydlynydd Archwilio y byddai'n gwneud hyn.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd Ddydd Llun 10 Mehefin 2013.

Datganodd y Cadeirydd nad oedd hithau yn bersonol yn credu fod y cofnodion yn adlewyrchu'r cyfarfod. Datganodd y Cadeirydd hefyd yr hoffai petai manylion cwestiynau ac ymatebion yr Aelodau yn y cofnodion.

**Materion yn codi:**
Diweddarodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol : Moderneiddio a Lles y Pwyllgor am Ail-ffurfweddu Gofal Iechyd.

Yn dilyn cynnydd mewn achosion o C.Diff (Clostridium difficile) yn Ysbyty Glan Clwyd yn gynharach eleni, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi comisiynu adolygiad annibynnol o drefniadau rheoli heintiau a byddent yn cael eu harwain gan yr Athro Brian Duerdon, arbenigwr mewn heintiau a gwrthiant antibiotig mewn gofal iechyd ac Athro Microbioleg Feddygol ym Mhrifysgol Caerdydd.

Roedd cyd-adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiad Gofal Iechyd Cymru wedi'i gyhoeddi.

Rhannodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles, bapur yn y cyfarfod oedd wedi'i roi i staff ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn â threfniadau cefnogaeth er mwyn symud ymlaen drwy gyfnod anodd.

Byddai Cynllun Gweithredu yn cael ei gynhyrchu ar 22 Gorffennaf 2013 a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyhoeddus ar 25 Gorffennaf 2013.

Mewn perthynas â'r Adolygiad o Wasanaethau Dwys, byddai ymgynghoriad cyhoeddus ac argymhellion ym mis Mawrth 2014.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2013 fel cofnod cywir, yn amodol ar yr uchod.*

***Gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor, newidiodd y Cadeirydd y drefn ar y pwynt hwn.***

## 5 DIWEDDARIAD TAITH I WAITH

Cyflwynodd Rheolwr Lleol, Taith i Waith adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn monitro cynnydd perfformiad Taith

i Waith o safbwynt canlyniadau cynaliadwy positif ar gyfer trigolion Sir Ddinbych ac o safbwynt y Cyngor fel y prif noddwyr arweiniol.

Cafwyd cyflwyniad byr gan Reolwr Lleol, Taith i Waith yn hysbysu'r Aelodau am Gynlluniau Taith i Waith ar gyfer y saith mis nesaf. Bydd y prosiect yn dod i ben ddiwedd mis Chwefror 2014.

Roedd Taith i Waith yn brosiect ar y cyd gyda Chonwy, Gwynedd ac Ynys Môn.

Amcanion Taith i Waith oedd: -
- Lleihau anactifedd economaidd a gwella lefelau cyflogaeth a sgiliau ymysg unigolion sy'n wynebu'r anfanteision mwyaf;
- Darparu amrywiaeth eang o ymyraethau hyblyg, cefnogaeth ddwys wedi'i deilwra i fodloni anghenion unigol;
- Cael effaith enfawr ar fywydau pobl.

Y canlyniadau oedd goresgyn rhwystrau at addysg, cyflogaeth a hyfforddiant:

Yr Arloesi :
- Gweithio gydag amrywiaeth eang o unigolion er mwyn newid diwylliant rhag bod yn ddibynnol i ddatblygiad personol cynaliadwy yn eu cymunedau;
- Mynd i'r afael ag anghenion cyflogaeth grwpiau o dan anfantais gydag ymgysylltiad gyda'r Gwasanaethu Cymdeithasol;
- Gweithio mewn partneriaeth.

Roedd yn rhaid i'r cyfranogwyr fod yn anactif yn economaidd neu'n ddi-waith ac yn ddinasyddion y DU. Roedd y grwpiau'n cynnwys gweithio gyda:
- Pobl hŷn (50+);
- Oedolion gydag anableddau/anawsterau dysgu;
- Anableddau corfforol a nam synhwyraidd;
- Merched yn dychwelyd i'r gwaith;
- Gofalwyr, rhieni sengl, BME;
- Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu gwaith;
- Anghenion iechyd meddwl;
- Heb waith am gyfnod sylweddol o amser ac yn wynebu rhwystrau at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth;
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

Roedd 1851 o gyfranogwyr wedi bod yn rhan o'r prosiect hyd yn hyn sydd yn fwy na'r targed gwreiddiol o 1600. Roedd nifer o heriau a bydd mwy yn 7 mis olaf y prosiect gan gynnwys:-
- Dyblygu prosiectau;
- Rhaglen Waith;
- Cyflawni'r targedau yn ystod dirwasgiad;
- Cyllid cyfatebol / taflenni amser;
- Cadw/cymell staff yn y terfynau amser;
- Diffyg cyllid/darpariaeth ychwanegol
- Paratoi cau'r prosiect.

Wrth baratoi ar gyfer cau'r prosiect, roedd DVD yn cael ei baratoi er mwyn dangos llwyddiant Taith i Waith a chydnabod teithiau anhygoel y cyfranogwyr.

Roedd Taith i Waith yn darparu tystiolaeth reolaidd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac roedd hyn yn gryn dipyn o her. Roedd tystiolaeth ar gyfer gofalwyr plant wedi'i ddarparu a gwnaed cryn dipyn o waith gyda gofalwyr oedolion ond roedd darparu tystiolaeth i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn anodd iawn.

Cynhaliwyd sesiynau rheolaidd yn y Rhyl a gan fod canolfan wedi'i sefydlu yng Nghorwen roedd sesiynau'n cael eu cynnal yng Nghorwen, Rhuthun a Llangollen.

Oherwydd bod prosiect Taith i Waith yn dod i ben ddiwedd mis Chwefror 2014, roedd strategaethau gadael unigol ar gyfer cyfranogwyr yn cael eu datblygu. Roedd atgyfeiriadau'n cael eu derbyn ar hyn o bryd gan nodi fod lefelau o anghenion uchel yn derbyn cyngor na ellir eu derbyn ar raglen Taith i Waith bellach.

Dymunodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain Jones i gloi gyda stori llwyddiant o Aberwheeler Nurseries, oedd wedi bod yn agos at gau oherwydd diffyg cyllid a materion Iechyd a Diogelwch ychydig yn ôl. Roedd nifer o gyfranogwyr Taith i Waith wedi'u lleoli yno. Gwnaed waith caled i ddiogelu Aberwheeler a nawr mae'n fusnes llwyddiannus. Dylid llongyfarch Tony Owens, Rheolwr Aberwheeler a'i dîm am newid Aberwheeler i fod yn llwyddiant ar gyfer Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr arsylwadau uchod, y byddai Pwyllgor Archwilio Partneriaethau'n derbyn a nodi*

*(i) Cydymffurfiaeth rhaglen Taith i Waith gyda pholisïau, gweithdrefnau a meysydd blaenoriaeth y Cyngor ac amodau a thelerau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru;*
*(ii) Fod trefniadau llywodraethu addas, gan gynnwys monitro, gwerthuso, prosesau rheoli risg, defnydd cyllid, cyflawni targedau a dangosyddion, wedi'u gosod; a*
*(iii) Datblygu'r strategaeth ymadael, gan fod cyllid yn dod i ben ar 28 Chwefror 2014.*

## 6 Y CYNLLUN MAWR: DIWEDDARIAD PERFFORMIAD

Cyflwynodd Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i ddiweddaru Pwyllgor Archwilio Partneriaethau am berfformiad y Bwrdd Gwasanaeth Lleol a'r partneriaid i gyflawni'r Cynllun MAWR: Rhan 1, 2011-2014.

Cynllun Mawr Sir Ddinbych :2011-14 yw'r cynllun ar gyfer gwaith partneriaethau yn Sir Ddinbych. Roedd y Cynllun MAWR yn cael ei ddarparu ar y cyd gan asiantaethau partner. Y Bwrdd Gwasanaeth Lleol sy'n gyfrifol am y Cynllun MAWR, a'r asiantaethau partner sy'n gyfrifol am weithredu'r cynlluniau gweithredu er mwyn cyflawni'r Cynllun MAWR a'i wyth amcan (mae'r asiantaethau yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y trydydd sector, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru).

Roedd yr adroddiad wedi'i rannu yn wyth amcan. Cafwyd crynodeb o'r wyth amcan gan Swyddog Perfformiad a Chynllunio. Yn dilyn y crynodeb, trafodwyd yr eitemau canlynol:-

- Mynegwyd siom nad oedd rhan o'r adroddiad yn canolbwyntio ar iechyd gofalwyr yn gwella yn dilyn derbyn cymorth. Nododd y Swyddog Perfformiad a Chynllunio y byddai'n anodd derbyn y wybodaeth ond gallai rannu'r neges gyda'r Swyddog Strategaeth. Hefyd mynegwyd gofal ar gyfer plant sâl wrth fynychu ysgolion y brif ffrwd gan fod eu brodyr a'u chwiorydd yn aml yn gofalu amdanynt. Gofynnwyd i barhau i adolygu straen ar frodyr a chwiorydd plant anabl.
- Roedd diffyg data ar gyfer 2011/13 yn seiliedig ar y ffaith fod argaeledd data 2 flynedd ar ei hôl hi. Roedd wedi'i ddarparu ond nid oedd wedi'i gyhoeddi.
- Roedd darpariaeth ar gyfer teuluoedd diamddiffyn o dan fygythiad oherwydd diwygio'r gyfundrefn les. Byddai hyn yn fanylach yng Nghynllun MAWR rhif 2.
- Yn dilyn Adroddiad Estyn, roedd yr Aelodau'n teimlo fod angen edrych ar anawsterau a wyneba'r ysgolion. Argymhellwyd y dylid darparu agwedd bositif at ysgolion.
- Roedd Gwasanaeth 'Drysau Agored' Strategaeth Dinas y Rhyl wedi cofrestru dros 1200 o gwsmeriaid yn chwilio am waith ers ei agor, ac roedd 181 ohonynt wedi derbyn cyflogaeth. Roedd Strategaeth Dinas y Rhyl yn darparu rhaglen ymroddedig i ysgogi tyfiant menter ledled Sir Ddinbych. Mynegodd yr Aelodau bryder am y cynllun oherwydd y nifer isel o swyddi sydd ar gael yn ystod yr hinsawdd economaidd ac felly gallai agwedd ariannol rhedeg y cynllun fod yn ddrud.
- Roedd Llywodraeth Cymru yn darparu £30 miliwn ar gyfer ardaloedd difreintiedig o dan ei gynllun 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi cyflwyno cais am £5 miliwn o gyllid ar gyfer Canol Tref y Rhyl.

Ar ddiwedd y drafodaeth canmolodd y Cadeirydd y swyddogion am ansawdd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a nodi pa mor hawdd ei ddeall a'i ddarllen ydoedd.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad, yn amodol ar yr uchod, ac yn cytuno i barhau i fonitro darpariaeth y Cynllun a'r canlyniadau.*

**Ar y pwynt hwn (11.15 a.m.) cafwyd 15 munud o egwyl.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.30 a.m.**

## 7 GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL PLANT A PHOBL IFANC (CAMHS)

Gwnaed cyflwyniad ar lafar gan Irfon Williams, Rheolwr Gwasanaeth, CAMHS ac Anableddau ar gyfer Gogledd Cymru.

***Bydd yr adran ganlynol yn cael ei orffen ar ôl derbyn ymateb llawn gan Irfon Williams.***

*Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaeth: CAMHS y Rheolwr Gwasanaeth sydd newydd ei phenodi, Sue Wynne, a bydd ei swydd yn dechrau fis Medi 2013. Penodwyd Tina Owen hefyd, Gwasanaeth 4 Haen.*

*Roedd chwe Gwasanaeth Cymunedol CAMHS wedi'u lleoli ledled Gogledd Cymru. Roedd CAMHS Sir Ddinbych wedi'u lleoli yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC) ar hyn o bryd ond byddant yn cael eu hail-leoli cyn diwedd y flwyddyn, i Ysbyty'r Alexandra, Y Rhyl.*

*Roedd y gwasanaeth wedi datblygu yn ystod y 10-15 mlynedd diwethaf ac yn ddiweddar roedd cynnydd yn nifrifoldeb yr achosion.*

*Un o'r prif gymhelliant oedd Mesur Iechyd Meddwl a ddaeth i rym yn 2012. Prif thema'r mesur oedd argaeledd atgyfeiriadau i'r gwasanaeth ac ymgynghoriad a chyngor sy'n cael ei ddarparu i bartneriaid. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith yn gweddu i ran 1 y cynllun. Rhan 2 y cynllun oedd mwy nag un person yn rhan o'r achos hwnnw.*

*Atebodd Mr Williams gwestiynau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor i'r Gwasanaeth CAMHS ymlaen llaw a datganodd y byddai'n darparu ymateb ysgrifenedig llawn iddynt mewn amser. Cynghorodd fod:*

***Amseroedd Aros** wedi lleihau i 5-6 wythnos. Cyn y Nadolig y llynedd, roedd amseroedd aros tua 4 i 5 mis. Roedd model darparu gwasanaeth wedi'i gyflwyno i gyflymu amser mynediad. Roedd y problemau a achoswyd drwy aros yn hir i gael mynediad at y gwasanaethau wedi'u cydnabod a gellir trefnu apwyntiadau yn awr fel bo'n addas ar gyfer y cleient. Roedd cynnydd mewn atgyfeiriadau ym mis Ebrill a Mai eleni, ac roedd anhawster oherwydd bod staff yn ymadael oherwydd dyrchafiad. Roedd amseroedd aros wedi parhau i fod rhwng 6-8 wythnos. Y targed o dan Fesur Iechyd Meddwl oedd 28 diwrnod ond ni fyddai hynny'n bosibl unman yng Ngogledd Cymru am gryn dipyn o amser. Roedd angen cynnal model ymyrraeth/rhwystro cynnar. Roedd atgyfeiriadau ledled Gogledd Cymru yn cynyddu.*

***Blaenoriaethu Atgyfeiriadau**. Roedd achosion risg uchel ac achosion sylweddol neu brys yn cael eu blaenoriaethu. Roedd pobl ifanc yn cael eu derbyn i'r ward plant yn YGC i ddechrau oherwydd niwed i'w hunain. Roedd y staff yn asesu pobl ifanc ond dim ond o Ddydd Llun i Ddydd Gwener yr oedd CAMHS ar gael ar hyn o bryd. Cydnabuwyd bod angen gwasanaeth ar y penwythnos yn awr. Roedd yr Uwch Reolwyr yn ystyried cynllun i ddelio â'r mater.*

*Cydnabuwyd hefyd mai ymyrraeth gynnar oedd yr allwedd i drin achosion o hunan niweidio, anhwylderau bwyta, iselder a gorbryder yn effeithiol. Roedd BIPBC yn ystyried gweithio gyda phartneriaid, megis gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, gyda'r bwriad o wella mesurau ymyrraeth gynnar er mwyn delio â'r problemau hyn ac osgoi newid i fod yn broblemau mawr yn y dyfodol.*

***Delio ag absenoldeb mewn apwyntiadau*** *Roedd Polisi Bwrdd Iechyd ar gyfer absenoldebau. Onid ydynt yn mynychu dau apwyntiad, roedd eu hachos yn cael ei gau. Fodd bynnag, byddai gofyn i'r un a anfonodd yr atgyfeiriad i'w hatgyfeirio i'r gwasanaeth eto. Roedd BIPBC hefyd yn cydnabod y ffaith fod nifer o deuluoedd o dan bwysau ac efallai eu bod yn ei chael yn anodd cael mynediad at y gwasanaethau. Roedd apwyntiadau clinig yn cael eu cynnig yn agosach at gartrefi'r unigolion er mwyn lleihau'r teithio. Y canolbwynt ar hyn o bryd yw absenoldebau, yn enwedig teuluoedd oedd yn cael anhawster gyda thrafnidiaeth, drwy sicrhau fod y gwasanaethau ar gael i bawb.*

*Cadarnhaodd Mr Williams, yn anffodus, fod stigma yn parhau mewn perthynas ag Iechyd Meddwl. Yn y pedair blynedd diwethaf, roedd Gwynedd ac Ynys Môn wedi bod yn mynd i'r ysgolion, yn trafod iechyd meddwl gyda disgyblion blwyddyn 8 a 9. Roedd Sir Ddinbych wedi dechrau cynllun tebyg. Roedd Tîm CAMHS wedi ymweld ag Ysgol Brynhyfryd i egluro materion Iechyd Meddwl yn llawn. Roedd gwefan yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Roedd Strategaeth Iechyd Meddwl Cymru Gyfan yn ymgynghori â phobl ifanc hefyd.*

***Oes cysylltiad rhwng amddifadiad ac Iechyd Meddwl?***
*Cydnabuwyd fod cynnydd mewn problemau iechyd meddwl mewn ardaloedd amddifadaeth uchel. Felly roedd y gwasanaeth yn canolbwyntio'r gwaith ymyrraeth gynnar a rhwystrau, ac yn ystyried strategaethau rhianta. Roedd Tîm CAMHS, gan gynnwys y tîm ymyrraeth gynnar, yn mynd i'r ysgolion i drafod hyn. Gall y penaethiaid alw CAMHS unrhyw bryd ynglŷn â pherson ifanc. Roedd cyfrinachedd yn flaenoriaeth. Roedd digwyddiadau mewn rhai ysgolion lle yr oedd y Tîm wedi mynd i drafod gydag athrawon ynglŷn â rheoli problemau ymddygiad. Cynigwyd cynllun ymgynghori. Byddai CAMHS yn ceisio cefnogi'r ysgol. Cynghorodd Mr Williams na ddylid gwahardd plant oherwydd materion iechyd meddwl, gan mai mater iechyd ydyw fel unrhyw fater iechyd arall. Roedd yn anaddas yn y rhan fwyaf o achosion i wahardd plentyn wrth aros am asesiad. Roedd y gwasanaeth yn blaenoriaethu achosion yn seiliedig ar anghenion y person ifanc. Cynghorodd Ms Wynne yn nhermau CAMHS, fod gan ysgolion wasanaethau cefnogi ymddygiad, a byddai'n well gweithio'n agos er mwyn delio â materion ymddygiad ac atal gwahardd.*

***Staff sy'n siarad Cymraeg*** *Cynghorodd Mr Williams fod ganddynt staff sy'n siarad Cymraeg ond nid oedd digon ohonynt i gyfateb ag anghenion y gwasanaeth. Petai pobl yn gofyn i gael siarad gyda siaradwr Cymraeg, gwneir pob ymdrech i ddarparu ar gyfer y cais. Wrth recriwtio, byddai Cymraeg yn cael ei nodi fel sgil dymunol, ond roedd yn dibynnu pwy oedd yn gwneud cais am y swydd. Roedd gan y Bwrdd Iechyd bolisi i annog staff i ddysgu siarad Cymraeg a darparwyd adnoddau 'e' ddysgu. O dan Fesur Iechyd Meddwl roedd yn rhaid i Staff CAMHS ofyn i'r cleifion fel rhan o'u hasesiad beth yw eu dewis iaith. Datganodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles i'r Pwyllgor fod nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn y Gwasanaethau Plant tua 20%, ond roedd gryn dipyn yn uwch yn y Gwasanaethau Addysg. Roedd ymgyrch cenedlaethol gan y Gweinidog bod yn rhaid i'r awdurdodau wneud yn well, oherwydd mae derbyn gwasanaeth yn eich mamiaith yn anghenraid nid dewis.*

*Cyfeiriodd Mr Williams at esiampl hanesyddol lle y gwnaed atgyfeiriad seiciatrig ond nid oedd seiciatrydd Cymraeg unrhyw le ym Mhrydain ar gael. Yn nhermau seiciatryddion Cymraeg, ychydig iawn oedd yn bodoli. Roedd staff, er eu bod wedi derbyn addysg gynradd ac uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg, heb ddigon o hyder i ddefnyddio Cymraeg yng nghyswllt gwaith oherwydd mai Saesneg oedd iaith y gwaith. Byddai BIPBC yn cynnal cynllun peilot ddechrau Ionawr 2014 er mwyn annog staff i fynychu ac adeiladu eu hyder er mwyn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith. Roedd ysgol yng Ngwynedd yn cynorthwyo staff y Bwrdd Iechyd i ddysgu Cymraeg gyda'r plant yn dysgu'r iaith i'r oedolion. Roedd hyn yn gweithio'n dda iawn.*

***Bwlio:*** *Nid yw CAMHS yn delio â bwlio oni bai bod mater iechyd meddwl wedi'i ganfod. Roedd Cynllun Gweithredu Cymru Gyfan o'r enw "Siarada gyda mi". Roedd gan CAMHS berthynas dda gyda gwasanaethau addysg a chymdeithasol yn Sir Ddinbych. Roedd camau ar waith i ddatblygu'r berthynas ymhellach. Roedd swyddogion CAMHS wedi cyfarfod gyda Leighton Rees a'r Tîm Rheoli yn ddiweddar ac wedi cytuno cynnal cyfarfodydd bob yn ail mis a digwyddiad hyfforddi. Byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnig i'r gwasanaethau cymdeithasol ac roedd dulliau o wella a chryfhau cyfathrebu rhwng y ddau yn cael eu harchwilio.*

*Mewn ymateb i gwestiynau pellach gan yr aelodau cadarnhaodd swyddogion CAMHS:*

- *Fod hyfforddiant ymwybyddiaeth yn cael ei ddarparu i athrawon ac roedd gan bob ysgol aelod o staff penodedig ar gyfer materion iechyd meddwl;*
- *Dylai bod unigolyn gofal bugeiliol ysgolion yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael gan CAMHS;*
- *Gofynnwyd i nifer o bobl ifanc "petai gennych broblem iechyd emosiynol, pa unigolyn fyddech chi'n siarad â hwy?" ateb 80% ohonynt oedd eu hathrawon. Felly dylai bod pob un o'r athrawon yn derbyn hyfforddiant ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath;*
- *Byddai CAMHS yn mynychu'r Eisteddfod a byddai ganddynt stondin ar y Maes gyda thaflenni a chardiau a byddant yn egluro materion iechyd meddwl;*
- *Cynhaliodd CAMHS amrywiaeth eang o asesiadau, gan amrywio o asesiadau cychwynnol untro gan ddibynnu ar anghenion i hyd at 5 neu 6 o wahanol asesiadau gan ddibynnu ar y galw a chyflwr y sefyllfa. Y peth pwysig oedd teilwra'r gofal i ddiwallu anghenion yr unigolyn.*

*Roedd Alice Ferguson, disgybl o Ysgol Brynhyfryd, yn bresennol yn y cyfarfod fel arsylwr. Roedd hi ar leoliad profiad gwaith gydag Adran Gwasanaethau'r Gyfraith a Democrataidd am wythnos. Datganodd Alice y canlynol: "Rwy'n falch eich bod wedi dod i fy ysgol. Roedd yn ddiddorol iawn. Dw i'n credu y byddai'n ddefnyddiol petai plant iau, blwyddyn 7 ac 8 o bosib, yn derbyn gwahoddiad i'r sgyrsiau hyn. Y rheswm am hyn yw eu bod mewn cyfnod yn eu bywydau lle y maent ar fin dechrau eu glasoed ac efallai nad ydynt yn sicr beth yw eu problemau, boed oherwydd y glasoed neu fater iechyd meddwl. Byddant yn elwa o'ch presenoldeb".*

*Roedd pawb yn curo eu dwylo a'r ôl datganiad Alice gan ei bod wedi siarad yn glir ac yn aeddfed ynglŷn â'r mater.*

*Ymatebodd Irfon Williams drwy ddatgan mai'r hyn sy'n allweddol yw beth y mae'r bobl ifanc yn ei ddweud. Mae CAMHS yn dymuno addysgu iechyd meddwl positif. Diolchodd i Alice am ei chyfraniad i'r cyfarfod ac roedd ei datganiad a'r modd yr oedd wedi cyflwyno ei hunan wedi cael argraff arno.*

***PENDERFYNWYD*** *bod Aelodau Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn derbyn a nodi'r adroddiad.*

## 8 MATERION GOFAL CYMDEITHASOL AR Y CYD

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Phlant, adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i ddiweddaru Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ynglŷn â:

- Darpariaethau arfaethedig a gynigir yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) ynglŷn â diogelu ac amddiffyn oedolion diamddiffyn.
- Systemau Sicrhau Ansawdd mewn perthynas â darparu Gofal Cartref ac ymweliadau Aelodau Etholedig i wasanaethau mewnol.

<u>Diogelu</u>
Roedd pedwar dewis wedi'u hystyried fel model ar gyfer Gogledd Cymru a'r dewis a ffefrir oedd Dewis 4 - Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru gyda dwy haen. Roedd y Dewis hwn yn galluogi i Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru i weithio mewn parau i ddatblygu tri Bwrdd Diogelu Oedolion gan ddysgu o fodel cyfredol Gwynedd ac Ynys Môn. Y cynnig oedd y byddai Sir Ddinbych yn gweithio gyda Chonwy. Fodd bynnag, roedd elfennau o ddiogelu oedolion y gellid eu cyflawni'n rhanbarthol, er enghraifft, hyfforddiant, perfformiad ac archwiliad, adolygiadau polisi ac achosion difrifol. Byddai'r trefniadau hyn hefyd yn cynorthwyo'r awdurdodau i weithio gyda gwasanaethau eraill, megis yr Heddlu, Iechyd, a Gwasanaeth Tân ac Achub.

<u>Monitro Gofal Cartref</u>
Yn dilyn crynodeb o'r adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes, cafwyd trafodaeth a gofynnwyd y cwestiynau canlynol:-

- Roedd Fforwm Dwyieithog Cymraeg wedi'i sefydlu yn ddiweddar. Felly, sut yr oeddent yn monitro hyfedredd Cymraeg y staff? Eglurodd Bennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes fod staff Sir Ddinbych yn cael eu hannog i wella eu sgiliau yn yr iaith Gymraeg. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles fod y Dirprwy Weinidog wedi arwain menter lle yr anogir pob awdurdod lleol i ddefnyddio Cymraeg i ddarparu gwasanaethau. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles, a'r Cynghorydd Huw Jones, oedd Cefnogwyr Cymraeg y Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai rhaglenni hyfforddiant yn cael eu cyhoeddi gyda hyfforddiant o wahanol lefelau yn cael eu darparu er mwyn annog pobl gydag ychydig o Gymraeg i'w ddefnyddio.
- Drafft Holiadur Gofal Cartref – Rhoddwyd ffurflen Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth i'r Aelodau er mwyn derbyn eu harsylwadau ac addasiadau posibl. Argymhellwyd yr addasiadau canlynol:
    - ➢ Cynyddu maint yr ysgrifen fel y gall pobl hŷn ddarllen yr holiadur yn hawdd.

- Y dylai'r bocs sydd â'r teitl 'Pwy ddylai lenwi'r ffurflen?' nodi na ddylai'r gweithiwr neu ddarparwr gofal cartref lenwi'r ffurflen.
- Dylai'r ffurflen gynnwys rhif ffôn y gallai'r defnyddiwr gwasanaeth ei ddefnyddio os bydd angen cymorth arnynt er mwyn cwblhau'r holiadur (mewn amser gellir defnyddio'r rhif Man Cyswllt Unigol)
- Eglurodd Rheolwr Gwasanaeth: Busnes a Gofalwyr y byddai cynllun peilot yn dechrau ynglŷn â dosbarthu'r holiadur. Er enghraifft, yn hytrach nag anfon drwy'r post, gellir dosbarthu'r holiaduron gyda llaw. Os oedd unigolyn yn cael anhawster cwblhau'r holiadur, yna roedd nifer o asiantaethau all roi cymorth i'w gwblhau.

***PENDERFYNWYD***:-

*(i) Bod yr Aelodau'n cytuno argymell fod y Cabinet yn cytuno newid trefniadau diogelu oedolion, yn unol â phob partner ledled Gogledd Cymru, i'r dewis a ffefrir sef Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru gyda dwy haen fel y manylir yn nogfen "Diogelu Oedolion Gogledd Cymru a/neu Gydweithfa: Y ffordd ymlaen".*

(ii) Bod yr Aelodau'n nodi fod Systemau Sicrhau Ansawdd ar waith yn y gwasanaethau gofal.

**9 GOFAL CARTREF – POSIBILRWYDD CYDWEITHREDU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley - Aelod Arweiniol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Phlant adroddiad (wedi'i gylchredeg yn flaenorol) i ddarparu gwybodaeth i'r aelodau ynglŷn â phosibilrwydd cydweithredu mewn perthynas â gofal cartref, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaeth: Busnes a Gofalwyr fod ymarferion mapio wedi'u cynnal. Roedd galw isel yn ne'r sir wedi'i ddangos ar fap oedd wedi'i atodi i'r adroddiad. Roedd y galw mewn rhai ardaloedd gwledig mor isel fel y byddai'n rhaid cwestiynu hyfywedd busnesau gofal cartref yn yr ardaloedd hynny. Nid oedd cydweithfa gydag awdurdodau lleol eraill yn ddatrysiad addas ar hyn o bryd. Byddai gwybodaeth y sefyllfa ranbarthol yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd a byddai'r sefyllfa yn cael ei monitro gan y gallai newid yn y dyfodol. Yn y cyfamser, byddai angen datrysiadau eraill.

Byddai'n addas nodi, er gwaethaf awgrymiadau i'r gwrthwyneb, fod darpariaeth gofal cartref, pan fo'r angen, ar gael hyd yn oed yn yr ardaloedd mwyaf gwledig.

***PENDERFYNWYD** fod yr Aelodau'n derbyn yr adroddiad ac yn cefnogi'r gwaith parhaus i ganfod dulliau eraill o fodloni'r galw isel am ofal cartref mewn ardaloedd gwledig.*

**10 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd Cydlynydd Archwilio adroddiad ( a gylchredwyd yn flaenorol) yn gofyn am adolygiad yr Aelodau o raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor a darparu diweddariad am faterion perthnasol. Roedd drafft rhaglen waith (Atodiad 1), rhaglen

gwaith i’r dyfodol y Cabinet (Atodiad 2) a chynnydd Penderfyniadau’r Pwyllgor (Atodiad 3) wedi’u hatodi i’r adroddiad.

26 Medi 2013 - derbyniwyd cais i ychwanegu adroddiad am ‘Fynediad Sengl i Dai’ ar y Rhaglen. Cytunwyd ychwanegu’r adroddiad er bod llwyth gwaith y Rhaglen yn drwm. Cytunwyd y byddai amser ychwanegol yn y cyfarfod er mwyn darparu’r adroddiad.

Adroddodd Cydlynydd Archwilio fod gofyn am gynrychiolydd o bob Pwyllgor Archwilio ar Fforwm Rhianta Corfforaethol. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Margaret McCarroll i fynychu’r Fforwm Rhianta Corfforaethol ar ran Pwyllgor Archwilio Partneriaethau.

Adroddodd Cydlynydd Archwilio fod gofyn am gynrychiolydd ar Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol – cytunodd y Cynghorydd Bill Tasker i fynychu’r Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol ar ran Pwyllgor Archwilio Partneriaethau.

Pwynt diddordeb – roedd rhestr o Grwpiau Her y Gwasanaeth wedi’u cynnwys yn y papurau gwybodaeth melyn.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(i) Yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo’r rhaglen gwaith i’r dyfodol fel y nodir yn Atodiad 1.*

*(ii) Penodi'r Cynghorydd Margaret McCarroll i gynrychioli Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar Fforwm Rhianta Corfforaethol*

(iii) Penodi'r Cynghorydd Bill Tasker fel cynrychiolydd Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol.

## 11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim

**Daeth y Cyfarfod i ben am 1.05pm.**